Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Prif Negeseuon o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Tachwedd 2021

Ymateb i Risg ac Angen am Fabanod Heb eu Geni, gan gynnwys Beichiogrwydd Cudd

Cynhaliwyd tri gweithdy amlasiantaeth hanner diwrnod ym mis Hydref 2021 i friffio staff ynghylch y canllawiau wedi eu diweddaru a chael adborth. Cafodd y gweithdai eu hwyluso gan Bruce Thornton.

Bydd sylwadau a diwygiadau'n cael eu casglu a'u hymgorffori yn y canllawiau draft i'w hadolygu a chael cytundeb terfynol gan BDPGC.

Penderfyniad diweddaraf y Llys Apêl – Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Tavistock and Portman

Darperir y diweddariad ar y dyfarniad diweddaraf gan Gynghorydd Cyfreithiol BDPGC.

Mae'r llys apêl wedi gwrthdroi dyfarniad bod plant o dan 16 oed sydd yn ystyried newid rhyw yn annhebygol o fod yn ddigon aeddfed i roi caniatâd gwybodus i gyffuriau atal glasoed gael eu rhagnodi. Mae'r dyfarniad yn cynnal egwyddorion cyfreithiol sefydledig sy'n parchu gallu clinigwyr i ymgysyllu'n weithredol ac yn feddylgar â chleifion mewn penderfyniadau am eu gofal a'u dyfodol.

Everyone's Invited ac ymateb Gogledd Cymru

Cafwyd diweddariadau gan gynrychiolwyr Addysg pob Awdurdod Lleol ar eu hymateb i'r data ar wefan Everyone's Invited.